

Cyngor Cymuned Mawddwy

Clerc: Mr Huw T. Jones, Henllys, Mallwyd, Machynlleth, Powys. SY20 9HS.

☎ 01650 531 405

E bost: huwjones792@btinternet.com

17eg Ionawr 2022

Annwyl Gyfaill,

CYNHELIR CYFARFOD o GYNGOR CYMUNED MAWDDWY **Nos Fercher y 26ain o Ionawr 2022 am 7.30pm** yn y Neuadd, Dinas Mawddwy.

Yn unol a'r cyfarfodydd diwethaf, bydd rhaid dilyn canllawiau clir y Neuadd yn ystod y noson drwy fynd i mewn o'r Brif Fynedfa, defnyddio y deunydd diheintio, a cherdded llwybr un ffordd ayyb.

Nodyn ar gyfer y cyhoedd. Mae croeso i'r cyhoedd arsylwi ar gyfarfodydd y Cyngor fel arfer, gan gynnwys gwneud hynny yn rhithiol os oes angen. (Deddf Llywodraeth Lleol ac Etholiadau 2021 Adran 47 – cyfarfod aml-leoliad) . Cysyllter â'r Clerc am fanylion o leiaf 3 diwrnod llawn cyn y cyfarfod, er mwyn sicrhau fod y trefniadau priodol mewn lle.

Disgwyliwn gynrychiolydd o'r Gwasanaeth Ambiwlans erbyn tua 7.30yh.

Edrychaf ymlaen i'ch gweld.

Yn Gywir,
Huw T Jones
CLERC

AGENDA

1. Croeso'r Cadeirydd a derbyn ymddiheuriadau.
2. Cyfle i dderbyn cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda. (Bydd angen cysylltu gyda'r Clerc ymlaenllaw.)
3. Croesawu cynrychiolaeth o Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru i drafod ein cwynion am y gwasanaeth.
4. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 8fed o Ragfyr - gweler gopi yn atodol.
5. **Materion yn codi.**
 - a) Materion Priffyrdd a chefnffyrdd.
 - b) Coeden mynwent Mallwyd
 - c) Arwydd mynwent Mallwyd.

6. Materion Cynllunio

NP5/74/466B – Codi to dros storfa dail presennol – Pennant, Llanymawddwy

NP5/74/T427B – Gosod sied bren iw defnyddio fel gweithdy yn lle carafan statig bresennol yn Dugoed Bach Mallwyd

Codi mast ffon, Tir yn Mynogau, Cwm Cerist – ymgynghoriad cyn cais

(y tri cais uchod wedi eu cylchredeg eisoes)

NP5/74/498 – Gosod trac mynediad lifawndiroedd mewn perthynas a chynllun adfer mawndiroedd – Pennant Llanymawddwy

7. Materion Cyllid

Adolygu y gwariant l'w gymharu a'r gyllideb, ac adroddiad o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ynghynt.

Anfoneb Tegid Humphreys am dorri mynwent Mallwyd a Llanymawddwy, a gwrych Llanymawddwy.

Anfoneb Hefin Pugh am osod slabs concrit ar wal y fynwent yn Dinas.

Ceisiadau am arian

Ambiwllans Awyr Cymru (trafodwyd cyfarfod Rhagfyr)

Clybiau Ffermwyr Ieuaic Meirionnydd

8. Gohebiaeth

a) Taliadau I Gynghorwyr Mawddwy 2021-22 (Cyfle i gynghorwyr hawlio hyd at uchafswm o £150 – ac yn unol a Adran 151 Mesur Llywodraeth Leol 2011, - rhaid i hyn gael ei gyhoeddi)

b) Prosiect Afancod Cymru – gweithdai ymgynghorol

c) Llythyr Cyngor Gwynedd yn cadarnhau y bydd biniau halen yn cael eu llenwi yn rhad ac am ddim o hyn ymlaen.

d) Llythyr Cyngor Gwynedd am Etholiadau Cyngor Cymuned 5ed Mai 2022

e) Rheoliadau Cyngorau Cymuned Cymwys (Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol) (Cymwysterau Clercod) (Cymru) 2021

f) Cwynion am Swyddfa Bost Dinas Mawddwy

g) Hyfforddiant a gynigir gan Un Llais Cymru (wedi eu cylchredeg eisoes)

9. Unrhyw fater arall